Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoleiddio darparwyr addysg uwch a dynodi cymorth i fyfyrwyr

Ymateb Medr i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:
https://www.llyw.cymru/rheoleiddio-darparwyr-addysg-uwch-dynodi-cymorth-i-fyfyrwyr-html

**Ymateb i'r Ymgynghoriad gan Medr: 3 Gorffennaf 2025.**

**C1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnal y polisi presennol a dim ond pennu cyrsiau israddedig a TAR llawn amser fel cyrsiau cymwys at ddibenion terfynau ffioedd dysgu?**

**Cytuno/Anghytuno/Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**

Mae Medr o blaid parhau â therfynau ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig a TAR llawn amser. Mae hyn yn adlewyrchu amcanion polisi hirsefydlog i ehangu cyfranogiad a chynnal fforddiadwyedd mewn meysydd allweddol sy'n flaenoriaeth genedlaethol.

Fodd bynnag, yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd dadl dros adolygu cwmpas rheoleiddio ffioedd dysgu. Gall peidio â chynnwys cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig a addysgir (y tu hwnt i TAR) gael effaith anghymesur ar ddysgwyr nad yw astudio'n llawn amser yn hygyrch iddynt—megis myfyrwyr aeddfed, gofalwyr, dysgwyr anabl, neu'r rhai hynny sydd mewn gwaith. Gall hyn arwain yn anfwriadol at anghydraddoldebau y mae'r system yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

Awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried manteision hirdymor posibl dull mwy cynhwysol o reoleiddio ffioedd, wedi'u cydbwyso yn erbyn cynaliadwyedd darparwyr. Byddai ymrwymiad i adolygu'r sefyllfa hon fel rhan o waith datblygu polisïau yn y dyfodol i'w groesawu.

**C2. Ydych chi'n cytuno y dylai cofrestru gyda Medr fod yn rhagofyniad ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch yng Nghymru yn awtomatig, gan gynnwys cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig, at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

**Cytuno/Anghytuno/Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**

Ydym. Mae Medr yn gryf o blaid y cynnig y dylai cofrestru fod yn amod ar gyfer dynodi awtomatig. Mae'r dull hwn yn sicrhau cysondeb priodol rhwng cymhwysedd i gael cymorth i fyfyrwyr wedi'i warantu'n gyhoeddus a statws rheoleiddiol darparwr, ac yn sicrhau y bydd dynodi awtomatig yn seiliedig ar drefniadau goruchwylio cadarn.

Bydd y broses gofrestru a weinyddir gan Medr yn asesu ac yn monitro cynaliadwyedd ariannol sefydliadau, eu trefniadau llywodraethu, deilliannau eu dysgwyr, a'u hymrwymiadau i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae dyletswydd statudol ar Medr i

asesu ansawdd darpariaeth addysg uwch, neu gomisiynu eraill i'w asesu, ac mae'r system reoleiddio'n mynd i'r afael â'r gofyniad hwn.

Credwn y bydd y cysondeb hwn yn rhoi eglurder a chydlyniant i ddysgwyr a darparwyr.

**C3. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru â'r Swyddfa Fyfyrwyr, p'un a ydynt wedi'u cofrestru yn y categorïau Cymeradwy neu Cymeradwy (gyda chap ffioedd), gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

**Cytuno/Anghytuno/Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**

Rydym yn cydnabod manteision galluogi dynodi awtomatig ar gyfer cyrsiau gan ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru â'r Swyddfa Fyfyrwyr yn y categorïau Cymeradwy neu Cymeradwy (gyda chap ffioedd). Mae'r dull hwn yn hwyluso symudedd trawsffiniol ac yn lleihau cymhlethdod ac ansicrwydd i fyfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru.

Dylid nodi, er bod cofrestru â'r Swyddfa Fyfyrwyr yn cynnig lefel o sicrwydd, nad yw'n adlewyrchu fframwaith rheoleiddio Medr yn llawn. Mae gwahaniaethau'n bodoli o ran pwyslais a throthwyon, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd (gan nad yw system reoleiddio'r Swyddfa Fyfyrwyr yn cydymffurfio â'r Safonau a'r Canllawiau Ewropeaidd), y Gymraeg, neu les staff a myfyrwyr.  Fodd bynnag, rydym yn cytuno ar y cyfan mai'r cynnig hwn yw'r un cywir i daro cydbwysedd rhwng dewis myfyrwyr a baich rheoleiddio, a'r gallu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ystyried y niferoedd sy'n astudio yng Nghymru a'r manteision a gaiff darparwyr yng Nghymru o drefniadau cyfatebol tebyg.

**C4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig mewn ysgolion gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

**Cytuno/Anghytuno/Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno**

O safbwynt pragmatig, mae Medr o blaid dynodi awtomatig ar gyfer llwybrau AGA achrededig mewn ysgolion. Mae hyn yn gyson â'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng llwybrau hyfforddiant i athrawon ac yn helpu i sicrhau na fydd y gallu i gael cymorth i fyfyrwyr yn mynd yn rhwystr rhag recriwtio mewn gwasanaeth cyhoeddus allweddol. Yn gynyddol, mae'r prosesau dynodi ar gyfer cyrsiau penodol yn arwydd o ddyblygu ymdrech ar gyfer y darparwyr hynny yn hyn o beth.

Hoffem bwysleisio pwysigrwydd parhau i ddynodi dim ond y cyrsiau sy'n arwain at gymhwyster TAR, ac nid statws ANG yn unig.

**C5. Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau a ddarperir ar ran darparwyr addysg uwch a reoleiddir at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

Mae Medr o blaid y dull arfaethedig, sy'n cydnabod cymhlethdod modelau cyflawni gan sicrhau bod darparwyr cofrestredig yn parhau i fod yn atebol am yr holl ddarpariaeth

ddynodedig a wneir ar eu rhan, gan roi sicrwydd clir ar gyfer darpariaeth sy'n cynnwys mwy o risg gynhenid. Lle bo trefniadau masnachfreinio neu is-gontractio ar waith, mae'n hanfodol bod y prif ddarparwr yn cynnal cyfrifoldeb llawn am ansawdd academaidd, deilliannau dysgwyr, a chydymffurfiaeth â rheoliadau. Bydd Medr yn pennu disgwyliadau clir yn ei amodau cofrestru ynglŷn â goruchwylio modelau cyflawni mewn partneriaeth.

Rydym yn cydnabod y bydd risg i ddarparwyr presennol sy'n cynnal cyrsiau ar ran sefydliadau sydd wedi'u cofrestru yn y categori craidd os na fyddant yn ceisio cael eu cofrestru (neu os na fydd ganddynt y gallu/seilwaith i wneud cais cofrestru a chynnal y cofrestriad) eu hunain. Os bydd y sefydliadau hynny'n symud i brosesau dynodi ar gyfer cyrsiau penodol, byddant yn colli'r gallu i gyrraedd y terfyn ffioedd dysgu uchaf ar gyfer eu myfyrwyr.

**C6. Ydych chi'n rhagweld unrhyw oblygiadau o ran adnoddau neu gostau i'ch sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

**Ydym/Nac ydym/Ddim yn siŵr**

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â symud tuag at y system gofrestru eisoes wedi cael eu hymgorffori yn strwythur sefydliadol Medr.

**C7. Ydych chi'n rhagweld unrhyw arbedion cost i'ch sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru? (Gall hyn gynnwys arbedion ar unwaith neu ostyngiadau cost hirdymor.)**

**Ydym/Nac ydym/Ddim yn siŵr**

Ydym, yn y tymor canolig i'r tymor hir. Bydd cysoni prosesau dynodi cyrsiau â phrosesau cofrestru darparwyr yn galluogi dull rheoleiddio symlach a mwy cydlynol. Bydd yn lleihau'r angen am ddulliau cymeradwyo ar wahân ar lefel cyrsiau ac yn galluogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau rheoleiddio, y gellir eu had-drefnu i ganolbwyntio ar y meysydd lle mae'r risg fwyaf.

**C8. Ydych chi'n credu y gallai unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar unrhyw bersonau sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cynnwys yn y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Os felly, sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Ydym. Gallai'r cynigion ei gwneud yn haws i grwpiau â nodweddion gwarchodedig gael gafael ar gymorth i fyfyrwyr, yn enwedig lle y byddant yn lleihau rhwystrau gweinyddol ac yn symleiddio gofynion cymhwysedd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Fodd bynnag, ceir risgiau posibl i'r darparwyr "amgen" hynny yng Nghymru na fyddant yn ceisio cael eu cofrestru o bosibl. Felly, mewn unrhyw asesiad effaith, rhaid rhoi sylw arbennig i hygyrchedd darpariaeth wedi'i his-gontractio neu ei masnachfreinio, lle y gallai amrywiadau o ran cymorth i ddysgwyr ddod i'r amlwg.

**C9. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Gall symleiddio prosesau dynodi gael gwared ar rwystrau diangen sy'n wynebu darparwyr sy'n ceisio datblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, dim ond os bydd y dull yn mynd ati i annog cyflwyno cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg—ac os na fydd yn dadflaenoriaethu hynny'n anfwriadol, er enghraifft drwy annog myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i astudio y tu allan i Gymru—y caiff y manteision eu gwireddu. Mae'n bosibl mai yn achos dynodi awtomatig ar gyfer cyrsiau AGA mewn ysgolion, a allai effeithio ar y galw am y ddarpariaeth AGA bresennol yng Nghymru, y bydd hyn yn fwyaf perthnasol.

Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr i sicrhau bod y system nerwydd yn gwneud cyfraniad ystyrlon at amcanion cenedlaethol o ran y Gymraeg, gan gynnwys amod sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y broses gofrestru.

**Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn:**

**sicrhau eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu**

**liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Asesiad risg ar ddarparwyr "amgen" sy'n gweithredu ar sail trefniadau is-gontractio â sefydliadau a reoleiddir yng Nghymru ar hyn o bryd, ac unrhyw ddarpariaeth Gymraeg bresennol. Ymgysylltu ychwanegol â'r darparwyr hynny gan Medr a Llywodraeth Cymru.

Asesiad risg ar y posibilrwydd o recriwtio llai o fyfyrwyr am ei bod yn haws cael gafael ar ddarpariaeth AGA mewn ysgolion yn Lloegr.

**Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod amdanynt:**

Dim sylwadau pellach.